# GŴYL GERDDED



**Mae'n bryd i chi lansio'ch sgidiau, pacio brechdanau a'i throi hi am y byd mawr wrth i ŵyl gerdded gyntaf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gychwyn.**

**Cynhelir teithiau cerdded sy'n siwtio pawb, o rieni sy'n gwthio'u babanod mewn bygis i ymdeithiau mynydd egnïol, yn ein holl leoliadau yn ystod yr wythnos Hydref 22 i 29, 2011.**

Cerddwch ar draws y dŵr o Gastell Penrhyn i Blas Newydd neu'r ffordd arall. Bydd y ddau grŵp yn cyfarfod ar y ffordd a bydd y daith yn cwmpasu golygfeydd syfrdanol.

Yn Ninefwr ar 22 Hydref dewch am dro o gwmpas yr unig barcdir gwarchodfa natur genedlaethol ym Mhrydain a bydd cyfle i weld gwartheg gwynion hynafol y stâd (oedd yn cael eu defnyddio ers talwm fel arian yn yr ardal hon).

Mae gardd goedwig Colby yn cynnig taith ddarganfod o gwmpas yr ardd yng nghwmni'r prif arddwr, Steve Whitehead, ar 25 Hydref.

Ymunwch â warden yr ardal, Andrew Tuddenham, ar daith gerdded pedair milltir o gwmpas harbwr Solfach ac fe welwch gaerau, llongddrylliadau ac adar môr ar hyd y ffordd ar Hydref 23.

Yn Erddig, gallwch fwynhau tro hamddenol o gwmpas y perllannau, gan edmygu lliwiau'r hydref a mynd â bagiau o afalau adref gyda chi wedyn.

**Am ragor o wybodaeth am y teithiau cerdded yn ein holl leoliadau ewch i www.nationaltrust.org.uk/walkingfestival. Am wybodaeth am deithiau yng Nghastell y Waun 22 i 30 o Hydref ffoniwch 01691 777700.**